

## **Alison Lee Wilson – Cyfarwyddwr, Cwmni Halen Môr Môn**

Addysgwyd Alison Lea-Wilson yn Swydd Hampshire ac ym Mhrifysgol Bangor lle cafodd radd BA mewn Saesneg a PGCE. Bu'n dysgu am 2 flynedd ond sylweddolodd yn fuan fod hunan gyflogaeth, er yn fwy o her, yn fwy at ei dant.

Wrth fagu 3 o blant, bu Alison yn helpu i dyfu wystrys, hel cregyn gleision a gwerthu bwyd môr a hefyd dechreuodd Sw Môr Môn gyda'i gŵr, David, a chyfaill. Dros y 23 mlynedd roedden nhw'n ei redeg, croesawyd 2.5 miliwn o ymwelwyr a chafodd dros 250 o bobl waith. Alison oedd yn gyfrifol am yr ochr manwerthu, arlwygo, adnoddau dynol a hyfforddiant.

Yn 2007 gwerthwyd y Sw Môr er mwyn i Alison a David allu canolbwyntio ar gwmni Halen Môr Môn. Mae'r cwmni nawr yn cyflogi 18 o bobl, yn allforio o leiaf i'r un nifer o wledydd ac mae ganddynt gwsmeriaid adnabyddus, o Heston Blumenthal, Pepsi Cola, Waitrose, M & S, a Green & Blacks Chocolate ymhlith llawer o rai eraill.

Mae'r ddau fusnes wedi ennill o leiaf 20 o wobrau. Y mwyaf nodedig oedd y wobwr gan gogyddion Ewropeaidd am godi safonau gastronomieg a'r wobwr Aur 3\*\*\* yng ngwobrau blynyddol y Top 50 Foods o blith 8800 o ymgeiswyr. Dyfarnwyd y wobwr hon i Halen Môn Umami, a gafodd ei ddatblygu gyda busnes Cymreig arall – the Mushroom Garden. Mae newydd ei ddewis yn un o'r 50 cwmni bwyd gorau ym Mhrydain, gyda dau gwmni arall o Gymru, Patchwork Pate a'r Coconut Kitchen.

Alison yw Is-Gadeirydd a chynrychiolydd y sector bwyd a diod ym Mhartneriaeth Cyrchfan Ynys Môn, partneriaeth rhwng y cyngor a'r sector preifat i ddenu ymwelwyr i Ynys Môn, ysgrifennydd Marchnad Ffermwyr Ynys Môn, cyd arweinydd Slow Food Cymru a chadeirydd Gorau Môn, partneriaeth rhwng busnesau lletygarwch, manwerthu a chynhyrchu ar Ynys Môn.

Mae ei diddordebau y tu allan i'r gwaith hefyd yn gysylltiedig â bwyd: coginio, diddanu ffrindiau a darllen, ac mae ganddi ychydig bach o obsesiwn â thoes sur – mae ei thoes 'cychwyn' bellach yn 4 oed.

Roedd 2014 yn flwyddyn brysur i Alison a David. Adeiladwyd canolfan newydd – y Tŷ Halen, cafodd David ei benodi yn Uchel Siryf Gwynedd, chafodd David ac Alison Gymrodoriaethau er anrhydedd gan Brifysgol Bangor ac enillodd eu halen statws Enw Tarddiad Gwarchoddedig, y cyntaf yng Nghymru a'r 60fed ym Mhrydain.